# Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru:
## Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

### Rhagymadrodd
Mae cyfathrebu'n sylfaenol i'n bywydau beunyddiol, ond fe gaiff rhai plant hi'n anodd datblygu sgiliau cyfathrebu.  Credir y gall fod ar lawer o blant sy'n derbyn gofal yn y system ofal anghenion cyfathrebu nas dynodwyd.

Mae'n bwysig bod gofalwyr maeth yn ymwybodol y gall fod ar y plant a'r bobl ifanc yn eu gofal anawsterau cyfathrebu gwaelodol a heb eu canfod, yn ychwanegol at eu hanghenion emosiynol. Mae gofalwyr maeth yn y sefyllfa orau ac mae ganddynt rôl bwysig i gefnogi ac i ymyrryd yn gynnar i helpu plant ifainc i ddatblygu iaith.

Mae ar ofalwyr maeth angen gweithio law yn llaw â gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd ac ysgolion i ganfod ac i roi sylw i oediadau yn gynnar, yn hytrach nag aros i weld a ydynt yn gwella.

Bydd y daflen ffeithiau hon yn eich helpu i fod yn ymwybodol o'r arwyddion i gadw llygad amdanynt ac mae'n cynnig ychydig o strategaethau syml y gellir eu defnyddio i gynorthwyo'r plentyn yn eich gofal.

### Ynglŷn â'r mater
**Beth yw cyfathrebu?**
Wrth graidd cyfathrebu y mae iaith.  Mae iaith ddynol yn sgil aml-haenog cymhleth sy'n defnyddio geiriau sy'n cael eu cyfuno i fod yn frawddegau i gyfleu ystyr mewn sgyrsiau a storïau.  Mae'r darn gwrando a deall o'r broses ddwyffordd hon yn sylfaenol bwysig.

Mae iaith yn helpu plant i drefnu, i ofyn cwestiynau, i ddatrys problemau, i wneud cyfeillion, i gydweithredu, i fyfyrio ar eu teimladau ac i ddatrys gwrthdaro.

Gallwn ddeall a defnyddio iaith mewn llawer o wahanol ffyrdd; er enghraifft: drwy siarad, arwyddo, ysgrifennu neu ddefnyddio symbolau.  Gallwn gyfathrebu wyneb yn wyneb, mewn grŵp, ar y ffôn, drwy adroddiad, ar nodyn post-it neu drwy neges testun neu e-bost.

### Datblygiad iaith a chyfathrebu
Mae sgiliau iaith a chyfathrebu'n datblygu, yn nodweddiadol, o enedigaeth yng nghyd-destun cysylltiadau ymlyniad cynnar, ac maent yn parhau i ddatblygu hyd at laslencyndod.

Mae yna gysylltiadau cryfion rhwng iaith a datblygiad emosiynol.  Mae gan blant sydd ag ymlyniad sicr well sgiliau iaith, ac mae sgiliau iaith da yn helpu i ddatblygu ac i gynnal ymlyniad, gyda mwy o eiriau am dermau emosiynol a datblygu sgiliau naratif (adrodd storïau).

Efallai y bydd plant a phobl ifanc ag anghenion cyfathrebu yn llai tebygol o ymuno â sgyrsiau ac y byddant yn rhyngweithio'n gadarnhaol yn llai aml. Gallant ei chanfod hi'n anodd gwneud a chynnal cyfeillgarwch, yn methu â rhannu'u teimladau, ei chanfod hi'n anodd datrys problemau a chydymdrafod.

Mae problemau cyfathrebu'n gysylltiedig â gorbryder a rhwystredigaeth. Canfuwyd fod plant ag anhwylderau iaith nas amheuwyd yn fwy tebygol o ddangos ymddygiad gwrthryfelgar, gorfywiogrwydd ac ymosodedd.

## Beth sy'n achosi anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu?

Mae anawsterau iaith a chyfathrebu sy'n nodweddiadol o blant sy'n derbyn gofal yn cynnwys:

- sgiliau cyfathrebu cymdeithasol
- enwi a rheoli emosiynau (yn cynnwys hunanreolaeth)
- hunanymwybyddiaeth
- geirfa
- cysyniadau'n gysylltiedig ag amser
- cof gweithio
- y gallu i ddal, prosesu, galw i gof a threfnu gwybodaeth.

Nid yw'n eglur bob amser beth sy'n achosi anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu ond fe ellir canfod ffactorau corfforol, datblygiadol ac/neu amgylcheddol ac maent yn debygol o ryngweithio.

Gellir cysylltu anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu ag oediad yn natblygiad cyffredinol plentyn. Efallai bod hyn yn gysylltiedig â'u hamgylchedd. Mae'r mwyafrif o blant mewn gofal yn profi amgylchiadau o dlodi ac anfantais gymdeithasol.

Efallai bod unrhyw anawsterau o ran ymlyniad ac unrhyw gamdriniaeth flaenorol, esgeulustod a thrawma dilynol hefyd wedi cael effaith ar sgiliau cyfathrebu plentyn sy'n derbyn gofal.

Fodd bynnag, fe all anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu fod o ganlyniad i anhwylder datblygu iaith (a enwyd yn flaenorol yn 'nam iaith penodol') neu fod yn gysylltiedig â chyflyrau eraill megis colled clyw, awtistiaeth neu anawsterau dysgu.

## Pam mae hi'n anodd canfod anawsterau cyfathrebu?

Gall anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu fod yn anodd eu canfod, ac fe all natur yr anawsterau newid dros amser, ond, fel gofalwyr maeth, rydych mewn sefyllfa dda i nodi'r arwyddion posibl.

- *Gall anawsterau cyfathrebu fod yn gynnil a gallant newid dros amser.*
  Mae plant a phobl ifanc a chanddynt leferydd sy'n aneglur yn gymharol hawdd eu hadnabod. Fodd bynnag, nid yw hi mor hawdd adnabod plant a phobl ifanc sy'n siarad yn eglur ond yn ei chael hi'n anodd deall yr hyn a ddywed eraill ac/neu'n ei chael hi'n anodd defnyddio geiriau a brawddegau i fynegi'u hunain.
- *Gellir ystyried anawsterau cyfathrebu fel problemau ymddygiad.*
  - Plant y mae'n ymddangos nad ydynt yn gwrando neu'n rhoi sylw (oherwydd bod yr iaith a ddefnyddir yn rhy gymhleth).
  - Plant nad ydynt yn gwneud fel y dywedir wrthynt (oherwydd nad ydynt yn deall neu nad ydynt yn cofio beth a ddywedwyd wrthynt am ei wneud).
  - Plant sy'n cymryd amser hir i ateb neu nad ydynt yn egluro pam eu bod wedi gwneud rhywbeth (oherwydd na allant feddwl am y geiriau cywir, ac adeiladu brawddegau neu naratifau'n rhwydd).

    - Plant sy'n torri ar draws neu'n siarad mewn ffordd amhriodol (oherwydd nad ydynt yn dda am 'ddarllen' sefyllfaoedd cymdeithasol neu am ddefnyddio sgiliau cyfathrebu cymdeithasol priodol).
- *Gall anawsterau ymddygiad fod yn fwy amlwg na phroblemau cyfathrebu.*
  Efallai y gellir blaenoriaethu ymyriadau ar gyfer ymddygiad. Fodd bynnag, efallai na fydd plant ag anawsterau cyfathrebu gwaelodol yn gallu elwa o'r ymyrraeth os cynigir cymorth drwy siarad. Gall rhoi sylw i'r anghenion cyfathrebu gwaelodol gynorthwyo mynediad at ymyriadau cefnogol.

## Nodi a chefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu

Fodd bynnag, er bod plant sy'n dechrau ar ofal maeth mewn perygl uchel o fod â phroblemau datblygu, ni fydd gan bob plentyn her datblygu neu her ymddygiad. Mae rhai plant mewn gofal maeth yn cyrraedd eu holl gerrig milltir datblygiadol ar amser.

Efallai fod gan blant eraill ond anawsterau ysgafn. Gall y problemau ysgafn hyn wella drwy ond gael eu lleoli mewn amgylchedd sensitif, gofalgar, ac sy'n ysgogi datblygiad. O ganlyniad, mae yna lawer y gall gofalwr maeth ei wneud i helpu plentyn mewn gofal maeth i ddatblygu'i botensial llawn.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r cerrig milltir hyn o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu. Rhannwch unrhyw bryderon y gall fod gennych ynglŷn â sgiliau lleferydd, iaith neu gyfathrebu plentyn neu berson ifanc. I ofalwyr maeth, mae'r cyfrifoldeb dirprwyedig yn ymwneud â gofal o ddydd i ddydd ond fe ddylai Rhan 6 y cynllun gofal a chymorth ddarparu arweiniad mwy eglur. Mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 yn mynnu bod y cynllun lleoli yn amlinellu unrhyw amgylchiadau lle mae'n rhaid i'r gofalwr maeth gael cymeradwyaeth o flaen llaw gan yr awdurdod lleol neu gan riant cyn gwneud penderfyniadau yn gysylltiedig â'r plentyn neu ofal a chefnogaeth i'r plentyn. Mae gofyn i ofalwyr maeth fod yn eglur ynglŷn â chymryd unrhyw weithred na chytunwyd arni yn eu cytundeb awdurdod dirprwyedig ac yn y cynllun gofal a chymorth.

Mae problemau wrth ddysgu siarad a deall iaith yn digwydd yn llawer amlach ymysg babanod a phlant bach mewn gofal maeth nag ymysg eraill, fe ganfu ymchwilwyr. Ond os caiff y plentyn gymorth tra ei fod yn dal yn ifanc iawn, mae yna debygolrwydd da y gall oresgyn ei heriau.

Mae atgyfeirio'n brydlon i therapydd lleferydd ac iaith ac asesu a chymorth priodol yn hanfodol ac mae'n debygol o wella canlyniadau i'r plentyn neu'r person ifanc. Gall therapi lleferydd ac iaith helpu plant sy'n derbyn gofal i fynegi'u barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Mae hefyd yn helpu'r rheiny sy'n cynorthwyo plant i gyfathrebu'n effeithiol â nhw.

## Cynghorion ymarferol i ofalwyr maeth

- Crëwch amgylchedd sy'n parchu gwrando yn eich cartref.
- Siaradwch â therapydd lleferydd ac iaith y plentyn neu'r person ifanc am strategaethau priodol y gallwch roi cynnig arnynt gartref.
- Edrychwch ar yr adnoddau ar-lein sydd ar gael am ragor o wybodaeth a chymorth. Ewch i www.afasiccymru.org.uk, www.talkingpoint.org.uk, www.thecommunicationtrust.org.uk ac www.rcslt.org.
- Mynychwch hyfforddiant ymwybyddiaeth o leferydd ac iaith i ddatblygu'ch sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

## Creu amgylchedd sy'n parchu gwrando:

- Lleihewch sŵn cefndirol a lleihewch bethau sy'n tynnu sylw pan fyddwch yn sgwrsio.

Diffoddwch y teledu, er enghraifft.

- Modelwch wrando da! Rhowch eich holl sylw.
- Addaswch y ffordd rydych yn siarad â'r plentyn neu'r person ifanc:
    - canolbwyntiwch sylw drwy ddefnyddio enw'r plentyn cyn rhoi cyfarwyddyd,
    - parwch eich cyfarwyddiadau ag oedran iaith y plentyn (nid ag oedran cronolegol),
    - defnyddiwch frawddegau byr a syml ac arafwch eich lleferydd ychydig,
    - lleihewch nifer y cwestiynau a ofynnwch.
- Darparwch gymorth gweledol pan fyddwch yn siarad. Defnyddiwch iaith y corff, pwyntiwch, dangoswch, defnyddiwch symbolau a lluniau.
- Caniatewch amser. Cymerwch seibiant o rhwng pump i ddeg eiliad rhwng brawddegau i helpu'ch plentyn maeth i ddirnad a deall yr hyn a ddywedwch.
- Cymerwch ofal â dealltwriaeth. Osgowch ofyn, 'Wnaethoch chi ddeall?' , gan y gall y plentyn neu'r person ifanc ond dweud:'Do!', hyd yn oed os na wnaeth ddeall. Yn hytrach, sylwch a yw'r plentyn neu'r plentyn ifanc wedi deall eich cyfarwyddyd. Ar gyfer plentyn hŷn neu berson ifanc, gofynnwch a all egluro ichi'r hyn a ddywedoch yn eu geiriau'u hunain?
- Canmolwch wrando da!

### Cyfeiriadau


The Communication Trust (2013) *A Generation Adrift*.

Roulstone, S. and McLeod, S. (2011) *Listening to Children and Young People with Speech, Language and Communication Needs*. J&R Press.

Law, J., Parkinson, A. and Tamhe, R. (2000) *Communication Difficulties in Childhood*. Radcliffe Medical Press.

Goodman, R. and Scott, S. (2005) *Child Psychiatry*. Blackwell Publishing Limited: London.

Royal College of Speech and Language Therapists Factsheet (2017) *Supporting looked after children*.

Cross, M. (2011) *Children with Social, Emotional and Behavioural Difficulties and Communication Problems. There is always a reason*. Jessica Kingsley Publishers: London.


## Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth bob amser yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth, ein cyhoeddiadau, ein hyfforddiant a'n gwasanaethau ymgynghori hanfodol i'n haelodau.

### Cyngor

Llinell Faethu Cymru
Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 rhwng 9.30yb - 12.30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Os ffoniwch ar unrhyw adeg arall, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:
Fosterlinewales@fostering.net
Rhwydwaith Maethu Cymru,
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

**Cefnogaeth ac adnoddau**
Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd i gael cefnogaeth a chynghorion gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad ac i gael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a sicr i drafod materion gofal maeth thefosteringnetwork.org.uk

**Hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori**
Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu chi. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn sarah.mobedji@fostering.net.

**Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu**
Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, ac fe ddaw â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

**Cysylltu â Ni**
I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:
Rhwydwaith Maethu Cymru,
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Ffôn: 029 2044 0940
E-bost: wales@fostering.net
Gwefan: thefosteringnetwork.org.uk

/thefosteringnetwork @fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017